

**CYNGOR: 24 HYDREF 2019**

---

**CYNNIG CABINET**

---

**POLISI ENWI STRYDOEDD**

**Rheswm dros yr Adroddiad hwn**

1. Argymell y Polisi Enwi Strydoedd i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Mae gan Gyngor Caerdydd ("y Cyngor") gyfrifoldebau a phwerau statudol, yng nghyd-destun deddfwriaeth fabwysiadu, ar gyfer enwi strydoedd, newid enwau strydoedd a nodi enwau strydoedd. Mae gan y Cyngor bwerau dewisol ychwanegol hefyd i ddarparu rhif neu enw i eiddo.
2. Mae i enwi strydoedd nifer o swyddogaethau pwysig, er enghraifft, dod o hyd i lefydd, dosbarthu'r post yn effeithiol a sicrhau bod y gwasanaethau brys yn gallu dod o hyd i eiddo yn gyflym.
3. Mae enwi strydoedd hefyd yn elfen allweddol ar greu lleoedd, ac mae'n bwysig yng nghyd-destun ymrwymadau'r Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Safonau'r Gymraeg a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Bydd sicrhau bod enwi strydoedd newydd yng Nghaerdydd yn adlewyrchu treftadaeth leol, gydag enwau ar gyfer datblygiadau newydd sydd â chysylltiad hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol, yn helpu i gyflawni'r nod llesiant cenedlaethol, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

**Cefndir**

4. Dull cyfredol y Cyngor o ran enwi strydoedd yng nghanol y ddinas, llwybrau craidd i ganol y ddinas ac ardal Bae Caerdydd, yw bod enwi strydoedd yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ar blatiau enwau strydoedd. Mae cynsail hanesyddol ar gyfer y dull hwn a'r egwyddor arweiniol yw bod y strydoedd hyn yn fannau cyhoeddus a rennir, yn hytrach na strydoedd mwy preswyl y ddinas. Mae hyn yn cynnal cysondeb â lleoedd cyhoeddus eraill a rennir o dan reolaeth y Cyngor megis parciau ac adeiladau cyhoeddus ac yn caniatáu i breswylwyr lywio strydoedd prysuraf y brifddinas yn eu dewis iaith. Y tu allan i'r ardal hon, nid yw'r enwau strydoedd presennol yn ddwyieithog ac o'r blaen nid oedd y Cyngor wedi sefydlu polisi ar gyfer enwi strydoedd. Nod y polisi newydd yw dod â'r dulliau at ei gilydd.
5. Mae'r Polisi Enwi Strydoedd hwn wedi'i ddatblygu i ddarparu cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr a pherchnogion eiddo presennol, gan nodi sut

mae'r Cyngor yn rheoli enwi a rhifo strydoedd ac eiddo o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 - Adranau 17 i 19.

6. Mae gan y Cyngor ymrwymiad i sicrhau ei fod yn gweithio tuag at nifer cyfartal rhwng nifer y strydoedd ag enwau Cymraeg a'r nifer sydd ag enwau Saesneg ar draws y ddinas. Bydd enwau strydoedd yn cael eu monitro.
7. Yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i Safonau'r Gymraeg, mae yna ystyriaethau Cymraeg pwysig mewn perthynas ag enwau strydoedd newydd. Y polisi a nodir yn y ddogfen yw y dylid mabwysiadu enw Cymraeg ar gyfer enwau strydoedd newydd sy'n "gyson â threftadaeth leol a hanes yr ardal". Mewn amgylchiadau eithriadol, gellid ystyried defnyddio enwau strydoedd mewn ieithoedd eraill "lle byddai enw stryd yn adlewyrchu'n gryf ac yn gydnaws â chysylltiadau ac ystyriaethau hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol penodol yn lleol a hynny yn dilyn ymgynghori â'r Panel Enwi Strydoedd a chymunedau/rhanddeiliaid lleol".
8. Nid yw'r polisi'n berthnasol i strydoedd presennol, ar wahân i'r rhai a ystyrir yn 'ddwyieithog' gan y Cyngor, fel yr amlinellir ym mhwynt 4. Bydd y panel enwi yn ystyried ac yn adolygu enwau dwyieithog fel y bo'n briodol. Ac eithrio'r strydoedd hyn, bydd enwau strydoedd presennol yn aros yn yr iaith 'hysbys' bresennol er mwyn osgoi dryswch posibl (e.e. Saesneg yn unig neu Gymraeg yn unig). Mae hyn yn dileu'r angen am gyfieithiadau Saesneg i Gymraeg a Chymraeg i Saesneg ar gyfer enwau strydoedd. Yr unig eithriadau posibl i'r polisi hwn yw'r prif lwybrau i ganol y ddinas ac ardal Bae Caerdydd sydd yn hanesyddol wedi cael enwau Cymraeg nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar arwyddion enwau strydoedd ar hyn o bryd (er enghraifft, City Road/Heol y Plwca).
9. Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau a phwerau statudol i gynnal rhestrau cywir ac wedi'u diweddarau o ran enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau yn ogystal â datblygiadau newydd. Mae'r polisi hefyd yn nodi'r gofynion corfforaethol o amgylch y Rhestr Cyfeiriadau Corfforaethol, sef y brif gofrestr cyfeiriadau a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.
10. Darperir canllawiau i ddatblygwyr yn y polisi, sy'n nodi'r broses y dylid ei dilyn wrth enwi a rhifo datblygiadau newydd, gan gynnwys ymgynghori â Phanel Enwi Lleoedd/Strydoedd Caerdydd Ddwyieithog. Mae'r panel enwi yn darparu arbenigedd er mwyn hwyluso, cynghori ac awgrymu opsiynau ar gyfer yr holl faterion enwi sy'n ymwneud â datblygiadau newydd. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu'r protocolau y dylid eu dilyn wrth rifo datblygiadau newydd, ailenwi/ail-rifo eiddo/strydoedd presennol a chychwyn defnydd cyfeiriadau newydd.
11. Ar dderbyn cais i enwi stryd, yn dilyn cyngor gan y Panel Enwi Strydoedd fe ymgynghorir a'r aelod cabinet sy'n gyfrifol am y portffolio hwn, â'r Post Brenhinol ynghyd â'r hol aelodau ward a'r cynghorau cymuned, lle bo'n briodol. Caiff unrhyw benderfyniadau parthed ceisiadau enwi strydoedd eu gwneud yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor. Os codir pryderon ynghylch enw stryd arfaethedig yn cael ei wrthod, bydd y swyddog sydd

â'r awdurdod dirprwyol yn gweithio gyda'r partion perthnasol a'r aelod cabinet i ganfod enw amgen. Os na fydd yn bosibl dod i gytundeb, mae'n bosib y caiff y mater ei gyfeirio i'r Cabinet.

## **Materion i'w Hystyried**

12. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi. Mae ymrwymiadau'r Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy gael ei chymhwyso i holl weithgareddau'r Cyngor trwy'r pum ffordd o weithio, sy'n pwysleisio'r angen am Gydweithio ac Ymglymiad wrth ddatblygu a gwerthuso cynigion a pholisïau. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid a'r cyhoedd gan ddefnyddio, er enghraifft, cyfathrebu ar-lein a chyswllt trwy wasanaethau allweddol fel llyfrgelloedd a hybiau, yn ogystal â chyswllt uniongyrchol â grwpiau rhanddeiliaid allweddol.
13. Derbyniodd yr ymgynghoriad cyhoeddus 2,248 o ymatebion. Mae'r canlyniadau allweddol yn cynnwys:
  - Roedd tri o bob pump (60.8%) yn cytuno â'r cynnig er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithio tuag at nifer gyfartal o strydoedd ag enwau Cymraeg a rhai ag enwau Saesneg ar draws y Ddinas. Roedd bron iawn i chwarter (23.6%) yn anghytuno â'r cynnig.
  - Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr (93.8%) yn cytuno ar roi blaenoriaeth i enwi cynlluniau a strydoedd â chyd-destun hanesyddol a lleol.
  - Rhoddodd nifer o ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer cynnwys cymunedau lleol yn y broses enwi strydoedd.
  - Roedd tri o bob pump (61.5%) yn credu y byddai'r polisi enwi strydoedd arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys 25.3% a deimlai y byddai'n cael effaith gadarnhaol iawn. Roedd tri mewn deg (30.1%) yn teimlo na fyddai'r polisi yn cael unrhyw effaith.
14. Mae'r adroddiad ymgynghori llawn ynghlwm yn Atodiad 1. Amlinellir newidiadau i'r polisi o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn Atodiad 2.
15. Gwneir darpariaeth yn y polisi ar gyfer disgrisiwn lleol wrth nodi enwau strydoedd. Mae gan Gaerdydd gefndir hanesyddol sylweddol ac felly er mwyn sicrhau bod y dreftadaeth hon yn cael ei chadw, rhoddir blaenoriaeth i enwi cynlluniau sydd â chyd-destun hanesyddol a lleol. Mae gan y Cyngor banel enwi gydag arbenigedd allanol er mwyn hwyluso, cynghori ac awgrymu opsiynau ar gyfer yr holl faterion enwi sy'n ymwneud â datblygiadau newydd.

## **Ymgynghoriad Aelodau Lleol (Ile bo hynny'n briodol)**

16. Cynhaliwyd ymgynghoriad ag aelodau lleol cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Derbyniwyd dau ymateb e-bost oddi wrth aelodau lleol, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori (Atodiad 1).

### **Rhesymau dros yr Argymhellion**

17. Sicrhau bod dyraniad enwau a/neu rifau stryd ac eiddo newydd neu ddiwygiedig yn rhesymegol ac yn cael eu defnyddio mewn modd gyson. Bydd hyn yn hwyluso cyflwyno gwasanaethau yn effeithiol o safbwynt y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn enwedig gan sicrhau y gall y gwasanaethau brys ddod o hyd i unrhyw gyfeiriad y bydd gofyn iddynt ei fynychu.
18. Yng nghyd-destun ymrwymadau'r Cyngor i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Safonau'r Gymraeg, sicrhau bod enwi strydoedd newydd yng Nghaerdydd yn adlewyrchu treftadaeth leol, gydag enwau ar gyfer datblygiadau newydd sydd â chysylltiad hanesyddol, diwylliannol ac ieithyddol, er mwyn helpu i gyflawni'r nod llesiant cenedlaethol, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

### **Goblygiadau Ariannol**

19. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o weithredu argymhellion yr adroddiad hwn. Bydd unrhyw gostau gweinyddol sy'n codi o'r polisi enwi strydoedd yn cael eu hariannu o'r adnoddau presennol.

### **Goblygiadau Cyfreithiol**

20. Mae nifer o gyfrifoldebau a grymoedd statudol gan y Cyngor parthed enwi strydoedd, fel y nodir yn yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn argymhell cymeradwyo'r Polisi Enwi Strydoedd ("y Polisi") sy'n cynnig rhoi arweiniad ar y broses.

Mae grymoedd gan y cyngor i enwi strydoedd (a rhifo eiddo sydd wedi eu lleoli yno). Mae rhai o'r grymoedd hynny wedi eu cynnwys yn y darpariaethau canlynol:

- a) Deddf Cymalau Gwella Trefydd 1847 (adrannau 64 a 65) (ar gyfer rhifo eiddo ac enwi Strydoedd).
- b) Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925 (adrannau 17 i 19) (Ar gyfer hysbysu Enwau Strydoedd ac arwyddion strydoedd).
- c) Adran 21 Deddf Diwygio Deddf Iechyd y Cyhoedd 1907 (ar gyfer newid enwau Strydoedd).

Parthed unrhyw benderfyniad, dylai'r cyngor sicrhau fod hwnnw yn unol â'i weithdrefnau llywodraethiant. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor hefyd fod yn ystyriol o'r gofynion canlynol:

### **Dyletswydd Cydraddoldeb.**

Rhaid i'r Cyngor hefyd gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector cyhoeddus Cymraeg) – Dyletswyddau Gydraddoldeb y Sector Gyhoeddus (DCSG). Mae'r dyletswyddau yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i (1) gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, (2) hybu cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasoedd da ar sail y 'nodweddion a ddiogelir'. Y 'Nodweddion a Ddiogelir' yw: • Oed • Ailbennu rhywedd • Rhyw • Hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd • Anabledd • beichiogrwydd a mamolaeth • Priodas a phartneriaeth sifil • Cyfeiriadedd rhywiol • Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred.

Mae ystyriaeth wedi ei roi i'r gofynion i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ac mae AEG wedi ei atodi fel atodlen 4 i'r adroddiad hwn fel gall y sawl sydd yn penderfynu, ddeall effeithiau posib y cynigion o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn cynorthwyo'r sawl sy'n penderfynu sicrhau ei fod yn gwneud penderfyniadau cymesur a rhesymol gan fod yn ystyriol o'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus.

Pan fo penderfyniad yn debygol o gael effaith niweidiol ar unrhyw grŵp sy'n rhannu Nodwedd a Ddiogelir, rhaid ystyried dulliau i liniaru'r niwed. Os na ellir osgoi'r niwed, rhaid i'r sawl sy'n penderfynu, bwysu a mesur yr effaith niweidiol yn erbyn cryfder yr angen cyhoeddus cyfreithlon i fwrw ymlaen â'r ymagwedd a argymhellir. Rhaid i'r sawl sydd yn penderfynu fod wedi ei fodloni wedi ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol a'r DCSG, y gellir cyfiawnhau'r cynigion, a bod pob ymdrech rhesymol wedi ei wneud i liniaru'r niwed.

Nodir fod yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys ystyriaeth o'r farn a'r wybodaeth a ddaeth i law drwy ymgynghoriad) wedi ei atodi fel atodlen 4 i'r adroddiad hwn. Rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad roi ystyriaeth briodol i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyn gwneud y penderfyniadau a argymhellir yn yr adroddiad.

#### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Oblygiadau cyfreithiol safonol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar gyrff cyhoeddus a'r nod o geisio cyflawni 7 nod llesiant cenedlaethol Cymru – Cymru sydd yn ffyniannus, yn wydn, iachach, mwy cyfartal, a chymunedau cydlynol, diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu, ac yn gyfrifol ar lefel byd-eang.

Wrth arfer ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, mae'r Cyngor wedi gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi eu dylunio i wneud y gorau o'i gyfraniad i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r amcanion llesiant wedi eu nodi yng nghynllun Corfforaethol Caerdydd 2019-22. Wrth arfer ei swyddogaethau, mae gofyn i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion llesiant. Golyga hyn y dylai'r sawl sy'n penderfynu ystyried sut bydd y penderfyniad arfaethedig yn cyfrannu at

gyflawni'r amcanion llesiant a'u bod wedi eu bodloni fod pob cam rhesymol wedi ei gymryd i gyflawni'r amcanion rheiny.

Mae'r ddyletswydd llesiant hefyd yn gofyn bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae'r egwyddor yn mynnu bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain. Yn syml, golyga hyn fod gofyn i'r rhai sy'n penderfynu yn y Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor:

- Edrych i'r tymor hir
- Ganolbwyntio ar atal trwy ddeall gwreiddiau problemau
- Cyflawni ymagwedd integredig i gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol
- Gweithio mewn cydweithrediad gydag eraill i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy
- Cynnwys pobl o bob rhan o'r gymuned o ran y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod wedi eu bodloni fod y penderfyniadau arfaethedig yn unol â'r egwyddorion uchod; a dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Canllaw Statudol a roddwyd gan Weinidogion Cymru, sydd yn hygyrch gan ddefnyddio'r ddolen isod: [https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau?\\_ga=2.234176606.1906822650.1568031999-1871802883.1546876497](https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau?_ga=2.234176606.1906822650.1568031999-1871802883.1546876497)

### Cyffredinol

Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod yn ystyriol hefyd, wrth benderfynu, o rwymedigaethau ehangach y Cyngor dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi fod yr ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r cyhoedd. Rhaid i unrhyw ymgynghoriad fod yn addas a theg. Mae cynnal ymgynghoriad yn creu disgwyliad dilys y dylid ystyried canlyniad yr ymgynghoriad fel rhan o'r broses benderfynu.

### **Goblygiadau Adnoddau Dynol**

21. Nid oes unrhyw oblygiadau AD i'r adroddiad hwn.

### **Cynnig Cabinet**

Argymhellir y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r polisi Enwi Strydoedd

Y Cabinet  
18 Hydref 2019

Atodir yr atodiadau canlynol:

- Atodiad 1 Adroddiad Ymgynghori ar Bolisi Enwi Strydoedd
- Atodiad 2 Polisi Enwi Strydoedd - newidiadau ar ôl ymgynghori.
- Atodiad 3 Polisi Enwi Strydoedd Drafft
- Atodiad 4 Asesiad o'r Effaith are Gydraddoldeb.